Dogfen Ymgynghori

Ar y cynnig i gynyddu lleoedd uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg trwy ehangu Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ar ei safle presennol o 1361 i 1660 o leoedd.

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fformatau eraill ar gais

Cysylltwch â ni ar 01446 709727 i drefnu hyn.

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Eglurhad o dermau a ddefnyddir yn y ddogfen hon	4
Cynnwys plant a phobl ifanc cynradd ac uwchradd	5
Cynnwys rhieni, llywodraethwyr a staff	6
Cefndir y cynnig	8
Y cynnig	9
Mapiau dalgylchoedd	10
Ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal ar hyn o bryd	12
Pam ydyn ni'n cynnig y newidiadau?	12
Gwybodaeth am yr ysgolion	14
Perfformiad ar hyn o bryd	16
Yr effaith fwriadedig ar ddeilliannau addysg	18
Sut fyddai hyn yn effeithio ar ysgolion eraill?	20
Sut fyddai hyn yn effeithio ar ddarpariaeth ADY?	20
Manteision ac anfanteision y cynnig hwn	23
Dewisiadau eraill a gafodd eu hystyried	24
Trefniadau derbyn a dalgylchoedd	24
Cyllid	24
Materion Adnoddau Dynol	25
Trefniadau ar gyfer Teithio gan Ddysgwyr	26
Effaith y cynnig ar y Gymraeg	26
Dyddiadau allweddol	28
Cwestiynau Cyffredin	30
Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad	31

Cyflwyniad

Ar 6 Mehefin, 2016 , penderfynodd y Cabinet Bro Morgannwg i ymgynghori ar gynnig uchelgeisiol i ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy gynyddu nifer y lleoedd addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i chi ddysgu am y cynnig. Mae'n eich cyfle i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau a gaiff eu hystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu sut i fynd ymlaen .

Mae'r ddogfen hon yn egluro cynnig y Cyngor i:

- Gynyddu nifer y lleoedd uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg trwy ehangu Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ar ei safle presennol o 1361 i 1660 o leoedd.

Mae'r broses ymgynghori hon yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru a nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2013. Gofynnir i ystod o unigolion a grwpiau am eu barn ynghylch y cynigion hyn.

Cyn bod unrhyw benderfyniadau'n cael eu gwneud, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cynnig nifer o gyfleoedd i unigolion a grwpiau sydd â buddiant wneud eu barn a'u safbwyntiau ynglŷn â'r cynnig yn hysbys.

Mae'r Cyngor yn ymgynghori â'r grwpiau canlynol:

Staff (sy'n addysgu ac nad ydynt yn addysgu) yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg	Corff Llywodraethu a Rhieni / Gofalwyr plant sy'n mynychu Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg
Corff Llywodraethu a Rhieni/Gofalwyr plant sy'n mynychu'r ysgolion cynradd sy'n bwydo Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg	Plant sy'n mynychu'r ysgolion sy'n bwydo Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg
Plant sy'n mynychu Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg	Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCaGP) Bro Morgannwg
Bwrdd Rhaglen Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg	Cynghorau Tref/Cymuned
Y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf	Aelodau Cynulliad/ Aelodau Seneddol/ Aelodau Cynulliad Rhanbarthol
Cynghorwyr Lleol	Rhieni dros Addysg Gymraeg (RHAG)
Comisiynydd y Gymraeg	Undebau Llafur
Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cyfagos ym Mro Morgannwg	Cyfarwyddwyr Addysg – Pob Awdurdod Cyfagos
Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De	Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch
Estyn	Gweinidogion Llywodraeth Cymru
Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu lleol	Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol
Adran Drafnidiaeth y Cyngor	Fforwm Ieuenctid a Chabinet Ieuenctid Bro Morgannwg

Tabl 1 Rhestr o Grwpiau i Ymgynghori â Hwy fel Rhan o'r Broses Ymgynghori

Eglurhad o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon

'ADY' – Anghenion Dysgu Ychwanegol

'AEG' – Mae Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb [AEG] yn broses sydd wedi'i bwriadu i sicrhau nad yw polisi, prosiect neu gynllun yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw bobl sy'n ddifreintiedig neu'n agored i niwed.

'ALl' – Awdurdod Lleol, sef Cyngor Bro Morgannwg.

'CAA' – Canolfan Adnoddau Arbenigol ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig.

'CACCD' – Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De. Y Gwasanaeth Gwella Ysgolion rhanbarthol ar gyfer y pum awdurdod lleol canlynol: Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg.

'**CCA' –** Cynorthwyydd Cymorth Addysg.

'CYBLD' – Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Ym mis Ionawr bob blwyddyn, caiff gwybodaeth wedi'i dilysu ei chasglu gan ysgolion i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys nifer y disgyblion sydd wedi'u cofrestru ym mhob ysgol, eu grwpiau oedran, cyfeiriadau cartref, ethnigrwydd a data ar y Gymraeg, cymhwystra i gael prydau ysgol am ddim, anghenion addysgol arbennig ac iaith gyntaf.

Cyfnod Allweddol – Mae'r cwricwlwm ysgolion wedi'i rannu'n bum Cyfnod Allweddol y caiff plant eu tywys drwyddynt yn ystod eu bywyd ysgol. Mae addysg gynradd yn cynnwys y Cyfnod Sylfaen (5-7) a Chyfnod Allweddol 2 (7-11). Pan fo plant yn symud ymlaen i addysg uwchradd maent yn gweithio gyda Chyfnodau Allweddol 3 a 4. Cyfnod Allweddol 4 yw'r ddwy flynedd pan wneir TGAU ym mlynyddoedd 10 ac 11. Cyfnod Allweddol 5 yw'r ddwy flynedd o addysg ar gyfer disgyblion 16-18 oed, neu yn y chweched dosbarth.

Disgybl â Datganiad – Mae gan blentyn Ddatganiad o Angen Dysgu Ychwanegol (ADY) os oes ganddo ef neu ganddi hi anawsterau dysgu sy'n golygu bod angen trefnu darpariaeth addysgol arbennig ar ei g/chyfer. Mae anhawster dysgu'n golygu bod plentyn yn profi mwy o anhawster o lawer wrth ddysgu na'r rhan fwyaf o blant o'r un oedran neu fod gan y plentyn anabledd sy'n golygu bod angen cyfleusterau addysgol gwahanol i'r rhai y mae'r ysgol yn eu darparu ar y cyfan ar gyfer plant.

Gweithredu gan yr Ysgol (GY) – Pan fo athro/athrawes dosbarth neu bwnc yn canfod bod gan blentyn angen dysgu ychwanegol mae angen iddo/iddi ddarparu ymyriadau sy'n ychwanegol at y rhai a ddarperir fel rhan o gwricwlwm arferol yr ysgol neu sy'n wahanol iddo.

Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy (GY+) – Pan fo athro/athrawes dosbarth neu bwnc a'r Cydlynydd ADY yn cael cyngor neu gymorth gan arbenigwyr allanol, fel bod ymyriadau eraill sy'n ychwanegol at y rhai a ddarperir ar gyfer y disgybl trwy Gweithredu gan yr Ysgol neu sy'n wahanol i'r ymyriadau hynny yn gallu cael eu rhoi ar waith.

Hysbysiad Statudol – Ystyr hysbysiad statudol yw pan fo cynnig terfynol yn cael ei gyhoeddi'n ffurfiol, os yw wedi cael ei gymeradwyo gan Gabinet y Cyngor, ac ni fydd ond

yn cael ei ystyried unwaith y byddant wedi cael yr holl ymatebion o'r broses ymgynghori. Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol a nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2013.
'Nifer ar y Gofrestr' – nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgol.

Nifer Derbyn – Mae'n rhaid i'r holl ysgolion a gynhelir dderbyn disgyblion hyd at eu nifer derbyn cyhoeddedig o leiaf. Mae'r nifer derbyn yn cyfeirio at nifer y lleoedd sydd ar gael ym mhob grŵp blwyddyn

Penderfynu – pan fo Cabinet y Cyngor yn gwneud ei benderfyniad terfynol ynghylch unrhyw gynnig, dywedid bod y cynnig **"Wedi cael ei benderfynu".**

'PYADd' – Prydau Ysgol Am Ddim

'SIY' – Saesneg fel Iaith Ychwanegol.

Uno – Y broses o uno neu gyfuno nifer o ysgolion mewn un ysgol.

Y Ddeddf Cydraddoldeb (2010) – Mae'r Ddeddf **[Y Ddeddf Cydraddoldeb]** yn gwarchod rhag amryw fathau o wahaniaethu sy'n ymwneud ag anabledd, a hefyd gwahaniaethu ac aflonyddu. Ystyr gwahaniaethu uniongyrchol yw pan fo pobl yn cael eu trin yn llai ffafriol na pherson arall oherwydd eich anabledd.

Ysgolion Cymunedol – ysgol gynradd neu uwchradd wladol y mae gan awdurdod addysg lleol gyfrifoldebau amdani o safbwynt staffio, adeiladau a derbyn disgyblion.

Cynnwys plant a phobl ifanc cynradd ac uwchradd – mae eu barn yn bwysig

Mae'r Cyngor yn credu'n gryf y dylai'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, yn ogystal â phlant o'r chwe ysgol Gymraeg sy'n ei bwydo, gael y cyfle i wneud eu barn am y cynnig hwn yn hysbys.

Mae gweithdy i blant cynradd wedi'i fwriadu i gasglu eu barn am y cynigion. Bydd y gweithdai'n briodol i grŵp oedran y plant a byddant yn cael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg. Gan na fydd yn ymarferol i'r holl blant fod yn bresennol yn y gweithdy, bydd cynrychiolwyr yn bresennol o bob ysgol. Gellir gofyn i blant nad ydynt yn gallu bod yn bresennol am eu safbwyntiau trwy holiadur sy'n briodol i'w hoedran ac y gellir ei gwblhau yn ystod amser ysgol rhwng 20 Mehefin ac 01 Awst 2016.

Bydd ail weithdy'n cael ei gynnal gyda'r Cyngor Ysgol yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. Bydd sesiwn galw heibio yn ystod amser cinio yn cael ei threfnu hefyd fel bod y bobl ifanc sy'n mynychu'r ysgol yn gallu gofyn unrhyw gwestiynau ychwanegol y gall fod ganddynt am y cynnig. Byddwn yn gofyn i ddisgyblion gwblhau naill ai copi caled neu fersiwn ar-lein o ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a fydd yn briodol i'w hoedran.

Bydd y ffurflen ymateb ar-lein ar gael i'r holl ddisgyblion uwchradd a bydd dolen i hon ar gael o 20 Mehefin tan 01 Awst 2016. Bydd modd gweld y ffurflen trwy wefan yr ysgol a gwefan Cyngor Bro Morgannwg.

Bydd gweithdy'n cael ei gynnal gyda Fforwm Ieuenctid a Chabinet Ieuenctid Bro Morgannwg.

Bydd yr wybodaeth a gesglir yn y gweithdai hyn yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad terfynol ar yr ymgynghoriad. Mae'r adroddiad hwn yn rhan bwysig o'r broses ymgynghori a bydd yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor i gael ei ystyried yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

Natur yr ymgynghoriad	**Dyddiad/Amser**	**Ysgol(ion) / Sefydliadau sy'n cymryd rhan:**
Gweithdy – Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg	Dydd Mawrth 5 Gorffennaf, 2016 12:00 – 13:00	Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg
Sesiwn Galw Heibio	Dydd Mawrth 5 Gorffennaf, 2016 13:05 – 14:00	Y Cyngor Ysgol yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg
Gweithdy – Disgyblion cynradd cyfrwng Cymraeg	Dydd Mercher 13 Gorffennaf, 2016 am 13:30 Ysgol Iolo Morgannwg	Ysgol Gwaun Y Nant Ysgol Iolo Morgannwg Ysgol Gymraeg Dewi Sant
Gweithdy – Disgyblion cynradd cyfrwng Cymraeg	Dydd Gwemer 15 Gorffennar, 2016 am 13:30 Ysgol Sant Curig	Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg Ysgol Gymraeg Pen y Garth Ysgol Sant Baruc Ysgol Sant Curig
Gweithdy	Cyn cyfarfod y Cabinet Ieuenctid ar 26 Mehefin 2016	Fforwm Ieuenctid a Chabinet Ieuenctid Bro Morgannwg.

Tabl 2 – Sesiynau Gweithdy a Galw Heibio fel rhan o'r Ymgynghoriad

Cynnwys rhieni, llywodraethwyr a staff – sut y gallwch ddod i wybod mwy a rhoi eich barn

Gwahoddir rhieni a gofalwyr i ddisgyblion yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg a rhieni i ddisgyblion sy'n mynychu unrhyw un o'r chwe ysgol Gymraeg sy'n ei bwydo i ddod i'r naill neu'r llall o'r ddwy sesiwn galw heibio.

Mae sesiynau galw heibio wedi cael eu trefnu er mwyn ichi allu gofyn cwestiynau am y cynnig. Trefnwyd y rhain i bara am sawl awr fel eich bod yn gallu galw heibio ar amser sy'n gyfleus i chi.

Byddwn wastad yn gofyn ichi gwblhau ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, gan mai dim ond sylwadau ysgrifenedig yr ydym yn gallu eu derbyn.

Bydd dyddiadau a lleoliadau'r sesiynau galw heibio'n cael eu harddangos gan ysgolion trwy eu gwefan a bydd gwybodaeth ar gael ar wefan Cyngor Bro Morgannwg a thrwy ffrydiau'r cyfryngau cymdeithasol hefyd.

Rydym hefyd wedi trefnu cyfarfodydd ar gyfer staff a chorff llywodraethu Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg.

Mae'r ddogfen hon a gwybodaeth ategol arall i'w cael ar wefan Cyngor Bro Morgannwg: www.valeofglamorgan.gov.uk/Welshmediumexpansion

Ceir dolenni i'r ddogfen hon ar y cyfryngau cymdeithasol trwy ffrwd Twitter Cyngor Bro Morgannwg a thrwy dudalen Facebook Cyngor Bro Morgannwg.

Mae manylion dyddiadau'r cyfarfodydd ymgynghori i'w gweld isod:

Natur yr ymgynghoriad	Dyddiad/Amser	Lleoliad
Cyfarfod i Staff	Dydd Mercher 06 Gorffennaf am 3:30 pm	Adran Uwchradd Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg
Cyfarfod i'r Llywodraethwyr	Dydd Mercher 06 Gorffennaf am 6:00 pm	Adran Uwchradd Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg
Sesiwn galw heibio i rieni 1	Dydd Mercher 13 Gorffennaf 3.30 pm - 6.30 pm	Adran Uwchradd Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg
Sesiwn galw heibio i rieni 2	Dydd Iau 14 Gorffennaf 3.30 pm - 6.30 pm	Adran Uwchradd Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg

Tabl 3 – Cyfarfodydd i Staff, Llywodraethwyr a Rhieni

Mae eich barn chi o bwys

Bydd y cyfnod ymgynghori'n para o **20 Mehefin 2016 tan 1 Awst 2016**. Gallwch ymateb i'n cynnig unrhyw bryd yn ystod y cyfnod hwn.

Mae eich barn yn bwysig inni, ac mae nifer o ffyrdd y gallwch roi gwybod inni:

- Cwblhewch y ffurflen ymateb ar-lein yn www.valeofglamorgan.gov.uk/Welshmediumexpansion
- Dewch i un o'r sesiynau galw heibio a siaradwch gyda ni'n bersonol. Mae hyn yn ffordd dda o allu cael atebion i gwestiynau sydd gennych am y cynnig. Byddwn yn dal i ofyn ichi gwblhau ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, gan mai dim ond yn ysgrifenedig y gallwn dderbyn safbwyntiau

- Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i dychwelyd i'r cyfeiriad a roddir ar waelod y ffurflen ar ddiwedd y ddogfen hon, sef:

Rhadbost RTGU-JGBH-YYJZ
Ymgynghoriad
Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid
Cyngor Bro Morgannwg
Y Swyddfeydd Dinesig
Heol Holton
Y Barri
CF63 4RU

Bydd yr holl ymatebion a roddir inni'n ysgrifenedig, gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein neu amgaeedig, yn cael eu hystyried gan Gabinet y Cyngor cyn iddo benderfynu a yw'n mynd i gyhoeddi hysbysiad statudol ynghylch y cynnig ai peidio.

Er y bydd ymatebion gan ymgyngoreion sy'n gwrthwynebu'r cynnig yn cael eu hystyried fel rhan o'r adroddiad ar yr ymgynghoriad, ni fyddant yn cael eu trin fel gwrthwynebiadau

statudol. Byddai gwrthwynebiad statudol yn cael ei gyflwyno yn ystod cyfnod y rhybudd statudol, os caiff ei gymeradwyo fel y cam nesaf, gan Gabinet y Cyngor.

Sylwer bod yn rhaid i'r holl sylwadau a anfonir yn ysgrifenedig gynnwys enw llawn a chyfeiriad post llawn y sawl sy'n gwneud y sylwadau.

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw **1 Awst 2016**. Yn anffodus ni all ymatebion sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwn gael eu hystyried gan y Cyngor.

Cefndir y Cynnig

Ym mis Mawrth 2014, rhoddodd Cabinet y Cyngor ystyriaeth i adroddiad am y diffyg rhagamcanol yn nifer y lleoedd uwchradd cyfrwng Cymraeg erbyn mis Medi 2020. Fe ofynnon nhw inni wneud gwaith i sicrhau y byddai disgyblion o'r ysgolion cynradd Cymraeg yn gallu cael lle mewn addysg uwchradd yn y dyfodol.

Ar y pryd, penderfynwyd y dylai'r prosiect i ehangu lleoedd uwchradd cyfrwng Cymraeg gael ei gydgysylltu â'r prosiect i drawsnewid addysg uwchradd cyfrwng Saesneg yn y Barri.

Ym mis Medi 2015 fe unwyd Ysgol Gymraeg Nant Talwg ac Ysgol Gyfun Bro Morgannwg i greu un ysgol Gymraeg 3-19: Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg.

Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori ym mis Mai 2015 ynghylch cynigion i gyflawni rhaglen a fyddai'n trawsnewid addysg uwchradd ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Cafodd canlyniad yr ymgynghoriad ei gyhoeddi mewn adroddiad Ymgynghori a adolygwyd gan Gabinet y Cyngor ar 05 Hydref 2015.

Yng ngoleuni'r gwrthwynebiad i agweddau allweddol ar y cynigion, cytunodd y Cabinet i beidio â symud ymlaen ymhellach ond i sefydlu Bwrdd Ymgynghorol i adolygu'r opsiynau, a gofynnodd i'r bwrdd ystyried yr opsiwn o sefydlu dwy ysgol uwchradd Saesneg a fyddai'n gymysg o ran rhyw yn ogystal â mynd i'r afael â'r angen i ehangu lleoedd uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Yn wahanol i'r cynnig cychwynnol i ad-drefnu, nid yw'r ddau gynnig wedi'u cydgysylltu â'i gilydd a gallant symud ymlaen ar wahân. Mae'n briodol felly bod dwy broses statudol ar wahân yn cael eu cynnal. Mae ymgynghori ynghylch dau gynnig ar wahân yn symlach nag ymgynghori ynghylch un cynnig mwy cymhleth ac mae'n sicrhau yr ymgynghorir â grwpiau o randdeiliaid ynghylch y materion sydd fwyaf perthnasol iddynt hwy.

Cafodd cyfres o grwpiau ffocws gyda disgyblion ac athrawon o'r dwy ysgol uwchradd Saesneg yn y Barri ac Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ei chynnal yng ngwanwyn 2016. Cafodd arolwg ar gyfer rhieni a'r gymuned ei gwblhau gan rieni'r tair ysgol, yn ogystal â rhieni / gwarcheidwaid o'r ysgolion sy'n bwydo'r ysgolion uwchradd. Fe ymatebodd aelodau'r cyhoedd i'r arolwg hefyd.

Mae'r cynnig newydd hwn wedi deillio o waith manwl y Bwrdd Ymgynghorol a'r adborth o'r grwpiau ffocws a'r arolwg gyda rhieni a'r gymuned a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2016. Mae'n nodi'r cynnig ar gyfer ehangu cyfleusterau uwchradd cyfrwng Cymraeg ac yn cynnwys yr holl opsiynau eraill a gafodd eu hystyried. Mae'r rhesymau pam fod y Cyngor yn credu mai dyma'r ffordd orau ymlaen ar gyfer addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon hefyd.

Y Cynnig

Mae'r Cyngor yn cynnig cynyddu nifer y lleoedd uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg trwy ehangu Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ar ei safle presennol i wneud lle ar gyfer y galw yn y dyfodol. Mae'r Cyngor yn cynnig buddsoddi £19 miliwn mewn rhaglen uchelgeisiol o waith adnewyddu ac adeiladau newydd. Mae'r buddsoddiad arfaethedig yn cynnwys cyllid o raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru. Trwy'r cynnig hwn, ynghyd â buddsoddiad cyfalaf sylweddol yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu digon o leoedd mewn ysgolion i ateb y galw yn y dyfodol am leoedd uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg.

Bydd y cynnig hwn:

- yn ehangu Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg o 1361 o leoedd i 1660 o leoedd o fis Medi 2020 i ateb y galw cynyddol am leoedd.

- yn amodol ar gyllid gan Lywodraeth Cymru, yn arwaith at gychwyn rhaglen o waith adnewyddu a gwaith i godi adeiladau newydd yn 2019 er mwyn sicrhau bod y campws newydd yn gallu ateb y galw ychwanegol a ragwelir.

Mae'r cynnig hwn wedi cael ei ddatblygu'n seiliedig ar dybiaeth y bydd cyllid i fuddsoddi yn adeiladau'r ysgol yn cael ei ddarparu gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru. Os na fydd cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gael maes o law, efallai na fydd yn bosibl cyflawni pob un o'r prosiectau adeiladu ac adnewyddu yr ydym yn dymuno'u cyflawni. Dan yr amgylchiadau hyn, bydd angen adolygu'r opsiynau buddsoddi a'n prif flaenoriaeth fydd darparu'r cyfleusterau ychwanegol sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion y disgyblion ychwanegol.

MAPIAU DALGYLCHOEDD

Yr Adran Uwchradd



Yr Adran Gynradd

Ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal ar hyn o bryd

Mae addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg yn cael ei darparu ar hyn o bryd gan:

- Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ar gyfer bechgyn a merched 3-19 oed – ysgol gymunedol Gymraeg sy'n darparu addysg gynradd ac uwchradd.

Cafodd Ysgol Gymraeg Nant Talwg ac Ysgol Gyfun Bro Morgannwg eu ffedereiddio ym mis Medi 2012 dan un corff llywodraethu a Phennaeth. Yn dilyn cyhoeddi hysbysiad statudol i uno'r ysgolion, cytunodd Cabinet y Cyngor y dylai'r ddwy ysgol uno o fis Medi 2015. Mae'r ysgolion hyn yn cael eu hystyried gyda'i gilydd drwy'r ddogfen hon.

Yr ysgolion Cymraeg eraill sy'n bwydo Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yw:

- Ysgol Sant Baruc
- Ysgol Sant Curig
- Ysgol Gymraeg Dewi Sant
- Ysgol Iolo Morganwg
- Ysgol Gwaun Y Nant
- Ysgol Gymraeg Pen Y Garth

Mae addysg uwchradd cyfrwng Saesneg yn y Barri yn cael ei darparu ar hyn o bryd gan:

- Ysgol Gyfun y Barri ar gyfer bechgyn 11-18 oed, gyda chwech dosbarth cymysg – ysgol gymunedol Saesneg
- Ysgol Gyfun Bryn Hafren ar gyfer merched 11-18, gyda chwech dosbarth cymysg – ysgol gymunedol Saesneg
- Ysgol Gyfun Babyddol Sant Richard Gwyn ar gyfer bechgyn a merched 11-16 oed – ysgol wirfoddol a gynorthwyir cyfrwng Saesneg

Dim ond ynghylch darpariaeth addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yr ydym yn ymgynghori fel rhan o'r cynnig hwn.

Pam ydyn ni'n cynnig y newidiadau?

Ers 2011 mae Bro Morgannwg wedi sefydlu dwy ysgol gynradd Gymraeg newydd ac wedi ymestyn dwy ysgol gynradd Gymraeg arall.

Yr ysgolion hyn yw:

- Ysgol Dewi Sant – Llanilltud Fawr (sefydlwyd yn 2011, adeilad newydd wedi'i agor yn 2015)
- Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg (cynradd) – Y Barri (sefydlwyd yn 2011, adeilad newydd wedi'i agor yn 2014)

- Ysgol Gymraeg Pen y Garth – Penarth (cynnydd yn nifer y lleoedd i 420 o fis Medi 2011).

- Ysgol Gwaun Y Nant – Y Barri (cynnydd yn nifer y lleoedd i 420 o fis Medi 2015).

Nifer presennol y disgyblion uwchradd sy'n mynychu'r ysgol, fel a nodwyd yn y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ym mis Ionawr 2016, yw 835 o ddisgyblion. Mae 316 o leoedd gwag ar gyfer disgyblion uwchradd (27.45%). Fodd bynnag, oherwydd y cynnydd a ragfynegir yn nifer y disgyblion a fydd yn dod o'r sector cynradd, bydd rhy ychydig o leoedd uwchradd ar gyfer y niferoedd ychwanegol o ddisgyblion o 2020 ymlaen. Felly, mae angen ehangu'r lleoedd ar gyfer disgyblion uwchradd o 1151 i 1450 o leoedd erbyn 2020 er mwyn sicrhau bod y disgyblion hyn yn gallu mynychu'r ysgol Gymraeg 3-19 leol yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd gall yr ysgol dderbyn 169 o blant i flwyddyn 7 bob blwyddyn, gan gynnwys y plant cynradd sydd eisoes ar y gofrestr. Byddai'r cynnig hwn yn cynyddu'r nifer i 240 bob blwyddyn o fis Medi 2008. Byddai nifer y lleoedd chweched dosbarth yn cynyddu i 250.

Ni fydd lle i'r disgyblion ychwanegol yn yr adeiladau presennol ar gyfer disgyblion uwchradd ar gampws Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. Bydd angen codi adeiladau ychwanegol ac adnewyddu cyfleusterau presennol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn darparu'r amgylchedd dysgu gorau posibl ar gyfer disgyblion sy'n mynychu'r ysgol.

Rhagwelir y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu o leiaf 50% o'r cyllid i wella adeiladau'r ysgol trwy ei rhaglen fuddsoddi Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. Rydym eisoes yn dechrau paratoi cynlluniau ar gyfer ail gam y rhaglen hon, a adwaenir fel Band B. Bydd yn bwysig maes o law bod yr ysgol yn cael budd o'r buddsoddiad hwn i wella'r amgylchedd dysgu a chynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol. Trwy baratoi gweledigaeth eglur i gynyddu a gwella cyfleusterau ar gyfer addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg, bydd y Cyngor yn y sefyllfa orau i gael mynediad at gyllid grant Band B er mwyn darparu'r nifer gywir o leoedd ar gyfer disgyblion, rhoi cymorth i gyrraedd safonau dysgu uchel yn barhaus a darparu adeiladau sy'n diwallu'r anghenion addysgu cynyddol ar gyfer niferoedd disgyblion ychwanegol.

Gwybodaeth am yr ysgolion

Gwybodaeth Gyffredinol am yr Ysgolion								
Ysgol	**Math o ysgol**	**Categori iaith**	**Adran yn yr Ysgol**	**Nifer Derbyn**	**Nifer y lleoedd yn yr ysgol**	**Nifer ar y gofrestr**	**Ystod Oedran**	**Lleoedd meithrin rhan-amser**
Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg	Ysgol Gymunedol 3 - 19	Cyfrwng Cymraeg	Cynradd	30	150**	135	3 - 19	52
			Uwchradd	189	1151	835		

Tabl 4 – Gwybodaeth am Nifer y Lleoedd – Data CYBLD ar 12 Ionawr 2016
****Nifer y lleoedd yn yr adran ar hyn o bryd, yn codi i 210 o fis Medi 2017**

Mae nifer y disgyblion ar y gofrestr yn yr ysgol ar hyn o bryd fel a ganlyn:

	Niferoedd Presennol				
Ysgol	**Adran yn yr Ysgol**	**Nifer y lleoedd yn yr ysgol**	**Nifer ar y gofrestr**	**Lleoedd gwag**	**% y lleoedd gwag**
Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg	Cynradd	150**	135	15	10%
	Uwchradd	1,151	835	316	27.45%

Tabl 5 - Data CYBLD ar 12 Ionawr 2016
****** Nifer y lleoedd yn yr adran ar hyn o bryd, yn codi i 210 o fis Medi 2017**

Mae'r tabl uchod yn dangos bod 27.45% o leoedd gwag ar gyfer disgyblion uwchradd. Yn 2015/16 mae mwy na chwarter y lleoedd yn dal heb eu llenwi.

Y galw am leoedd

Mae'r tabl canlynol yn darparu'r data diweddar o ran y nifer ar y gofrestr, a data rhagamcanol o ran y nifer ar y gofrestr, gan gynnwys datblygiadau tai newydd, hyd at a chan gynnwys blwyddyn academaidd 2024/25.

Data diweddar o ran y nifer ar y gofrestr, a data rhagamcanol o ran y nifer ar y gofrestr ar gyfer yr holl ysgolion																
	Lleoedd yn yr ysgol ar hyn o bryd	**Ionawr 2011**	**Ionawr 2012**	**Ionawr 2013**	**Ionawr 2014**	**Ionawr 2015**	**Ionawr 2016**	**Amcanestyniad 2016/17**	**Amcanestyniad 2017/18**	**Amcanestyn-iadau 2018/19**	**Amcanestyn-iadau 2019/20**	**Amcanestyn-iadau 2020/21**	**Amcanestyn-iadau 2021/22**	**Amcanestyn-iadau 2022/23**	**Amcanestyn-iadau 2023/24**	**Amcanestyn-iadau 2024/25**
Cynradd	150 yn codi i 210 erbyn 2017	0	18	55	82	110	135	165	195	204	206	207	207	210	210	210
Uwchradd	1,151	856	832	813	806	819	835	875	940	1022	1122	1217	1273	1313	1347	1366
Cyfanswm ar y campws cyfrwng Cymraeg	**1,271 yn codi i 1,361 erbyn 2017**	**856**	**850**	**868**	**888**	**929**	**970**	**1040**	**1135**	**1226**	**1328**	**1424**	**1480**	**1523**	**1557**	**1576**

Tabl 6 – Nifer diweddar a rhagamcanol ar y gofrestr.

Erbyn mis Medi 2020, disgwylir y bydd yr angen am leoedd uwchradd cyfrwng Cymraeg yn fw0y na nifer y lleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd. Bydd nifer y lleoedd uwchradd cyfrwng Cymraeg y mae eu hangen wedi cynyddu i 1,217 o leoedd a bydd yn cynyddu'n gyson, gyda charfannau mwy'n dod o'r ysgolion cynradd hyd at 2025.

Y galw yn y dyfodol am leoedd ym Mlwyddyn 7										
	2016	**2017**	**2018**	**2019**	**2020**	**2021**	**2022**	**2023**	**2024**	**2025**
Y galw ym Mlwyddyn 7	163	173	194	228	234	226	222	228	233	226

Tabl 7 – Y galw am Leoedd mewn Ysgolion hyd at 2025

Rhagwelir y bydd y galw am leoedd uwchradd cyfrwng Cymraeg yn parhau i dyfu nes y bydd ar fwy na 1,366 o bobl ifanc angen lle uwchradd yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg erbyn tymor yr hydref 2025. Fodd bynnag, lle cyfyngedig sydd ar draws adeiladau presennol yr adran uwchradd i ddygymod â'r cynnydd hwn.

Y tu hwnt i 2025, bydd y galw am leoedd uwchradd cyfrwng Cymraeg yn parhau i gynyddu wrth i ddisgyblion o'r sector cynradd barhau i fwydo i mewn i'r ysgol. Rhagwelir y bydd angen hyd at gyfanswm o 1660 o leoedd ar gyfer disgyblion os bydd cyfradd bresennol y galw am leoedd yn yr holl ysgolion cynradd Cymraeg presennol yn parhau a bod yr holl ddisgyblion hyn yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Fodd bynnag, os bydd niferoedd y disgyblion yn cynyddu ymhellach bydd unrhyw waith uwchgynllunio ar gyfer y safle'n ei gwneud yn bosibl datblygu adeiladau ac isadeiledd ychwanegol ar y campws.

Perfformiad presennol

Mae'r Cyngor yn cydweithio'n agos gyda chorff llywodraethu'r ysgol i sicrhau bod safonau ar draws yr holl gyfnodau allweddol yn uchel, bod y dysgu a'r addysgu'n dda a bod arweinyddiaeth a threfniadau llywodraethu'n gryf. Mae'r Cyngor yn cydweithio'n agos gyda dau sefydliad er mwyn monitro perfformiad ysgolion a rhoi cymorth i wella ysgolion.

Estyn yw swyddfa Arolygydd Ei Mawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Un o gyrff y Goron ydyw, a sefydlwyd dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond mae'n cael ei gyllid gan Lywodraeth Cymru dan adran 104 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Sefydlwyd Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De (CACCD) ym mis Medi 2012. Mae'r Awdurdod Lleol wedi comisiynu'r Consortiwm i gefnogi a herio'r holl ysgolion ym Mro Morgannwg.

Caiff ysgolion eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol i arolygu ysgolion. Diben arolygiad yw canfod arferion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion *(Estyn).*

Ar gyfer arolygiadau gan Estyn cyn 2010, roedd 7 cwestiwn allweddol y gellir dyfarnu'r graddau canlynol ar eu cyfer:

Gradd 1 – Da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3 – Nodweddion da'n gorbwyso diffygion
Gradd 4 – Rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5 – Llawer o ddiffygion pwysig

Yn 2010, cyflwynwyd fframwaith arolygu cyffredin newydd. Yn ystod pob arolygiad o ysgol, mae arolygwyr yn amcanu at ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn darparu barn ar y cyfan ynglŷn â pherfformiad presennol yr ysgol ac ynglŷn â'i rhagolygon ar gyfer gwella. Yn yr arfarniadau hyn, mae arolygwyr yn defnyddio graddfa ac iddi bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn y mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Cryfderau yn gorbwyso meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso cryfderau

Tabl 8 – Meini Prawf Arolygu Estyn

Cafodd Ysgol Gyfun Bro Morgannwg (fel y'i gelwid yn 2008) ei harolygu dan y fframwaith arolygu cynharach ar 17 Tachwedd 2008. Barnwyd ei bod yn ysgol dda iawn gyda llawer o nodweddion rhagorol. Barnwyd fod yr addysgu'n rhagorol. Roedd ansawdd y perthnasoedd rhwng athrawon a disgyblion yn cael ei ystyried yn eithriadol. Nodwyd fod cyrhaeddiad disgyblion yn nghyfnod allweddol 4 (TGAU) yn gryf.

Mae perfformiad mewn TGAU yn y ddau chwarter uchaf o'i gymharu ag ysgolion tebyg yng Nghymru. Yn 2015, enillodd 68% o'r holl blant 5 TGAU (gan gynnwys Cymraeg a mathemateg) gradd A* - C. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Bro Morgannwg sef 64.94% a'r cyfartaledd ar gyfer Cymru sef 57.95%.

Nid yw'r adran gynradd wedi cael arolygiad gan Estyn eto. Mae'r adroddiad arolygu diweddaraf ar gyfer Ysgol Gyfun Bro Morgannwg i'w weld yn www.estyn.gov.wales/provider/6734066

System Llywodraeth Cymru ar gyfer categoreiddio ysgolion

Yn 2014 cyflwynodd Llywodraeth Cymru system gategoreiddio newydd sy'n ystyried safonau pob ysgol ochr yn ochr â gallu'r ysgol i wella er mwyn deall lefel y gefnogaeth y mae angen i sefydliadau megis CACCD ei rhoi i bob ysgol er mwyn iddynt gyrraedd eu targedau.

Caiff y system gategoreiddio ei disgrifio isod:

Categori	Yr hyn y mae'r categori'n ei olygu
Gwyrdd	Ysgol hynod effeithiol sy'n cael ei rhedeg yn dda, sydd ag arweinyddiaeth gref ac sy'n glir ynghylch ei blaenoriaethau ar gyfer gwella
Melyn	Ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac sy'n gwybod ym mha feysydd y mae angen iddi wella.
Oren	Ysgol y mae angen iddi wella ac y mae angen cymorth arni i adnabod y camau i wella neu i wneud i newid ddigwydd yn gynt.
Coch	Ysgol y mae angen y gwelliant mwyaf arni ac a fydd yn cael cefnogaeth ddwys, a hynny ar unwaith.

Tabl 9 – Meini Prawf Gwella CACCD 2016

Er mwyn pennu'r categori lliw yn unol â'r esboniadau yn y tabl uchod, caiff ysgolion eu gosod yn un o'r pedwar grŵp ar gyfer safonau (1-4) ac ar gyfer dwyn gwelliant (A-D),

gydag un yn cynrychioli'r grŵp uchaf ar gyfer safonau ac A yn cynrychioli'r grŵp uchaf o ran y gallu i wella.

I gael mwy o wybodaeth am y system gategoreiddio newydd, gweler dogfen Llywodraeth Cymru, System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion – Canllaw i Rieni: http://gov.wales/docs/dcells/publications/150119-parents-guide-cy-v2.pdf

Ysgol	Gradd Safonau	Gallu i Wella	Categori ar y Cyfan
Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg	2	B	Yellow

Tabl 10 – Safonau a Chategorïau Gwella - Ionawr 2016

Yr effaith fwriadedig ar ddeilliannau addysg

Bwriad y cynnig yw cynnal momentwm y gwelliant yn yr ysgol. Ni fydd unrhyw effaith ar yr ysgol o ran darparu'r cwricwlwm llawn yn y Cyfnod Sylfaen ac ar gyfer pob cyfnod allweddol.

Safonau

Uchelgais clir yr ysgol yw bod yr holl blant sy'n dymuno cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mro Morgannwg yn cyflawni deilliannau addysgol sydd gyda'r gorau yng Nghymru. Bydd y cynnig hwn o gymorth i wireddu'r uchelgais hwnnw. Bydd canlyniadau arholiadau allanol yn dal i fod yn uwch na'r rhai mewn ysgolion tebyg yng Nghymru a bydd disgyblion yn dal i wneud ceisiadau llwyddiannus i brifysgolion. Bydd y system gategoreiddio genedlaethol yn parhau i osod yr ysgol yn y categori melyn neu wyrdd a bydd Estyn yn barnu bod yr ysgol newydd yn dda neu'n rhagorol.

Bydd cynllunio gofalus ar gyfer codi adeiladau newydd i'r ysgol ac adnewyddu adeiladau presennol yn ceisio lleddfu'r effaith o ran amharu ar safonau addysgol, yn enwedig yn ystod cyfnodau arholiadau allweddol.

Y Ddarpariaeth

Er mwyn darparu digon o leoedd i ateb y galw am leoedd cyfrwng Cymraeg ychwanegol ar gyfer plant o oedran uwchradd, byddai angen i Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg gynyddu nifer y lleoedd sydd ganddi ar gyfer disgyblion o 1361 i 1660.

Ni fydd angen ymestyn y ddarpariaeth gynradd gan fod yr ysgol wedi cael ei hadeiladu ar gyfer 210 o blant sy'n foddhaol o ystyried yr angen yn ei dalgylch. Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol blant yn y grwpiau blwyddyn hyd at flwyddyn 4, ac mae disgwyl iddi fod â phlant ym mhob grŵp blwyddyn o 2017/18.

Arweinyddiaeth a llywodraethu

- Bydd arweinyddiaeth Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn dal i fod yn gryf ac yn parhau i weithredu ei dull ysgol-gyfan, trylwyr o roi mentrau newydd ar waith a chynllunio ar gyfer gwella yng ngoleuni'r argymhellion Cymru Gyfan a nodir yn Adroddiad Donaldson, Dyfodol Llwyddiannus (2015).

- Byddai'r ysgol yn parhau â'r gwaith o arwain ysgolion Cymraeg gan weithredu fel canolbwynt ar gyfer y Gymraeg, gan gefnogi athrawon ac ymarferwyr mewn ysgolion Saesneg.

- Bydd cynllunio gofalus yn digwydd er mwyn sicrhau bod unrhyw waith adeiladu arfaethedig yn cael ei amserlennu ar gyfer gwyliau ysgol hyd y gellir. Bydd yr ysgol a'r Cyngor yn parhau i ymgynghori a gweithio mewn partneriaeth gyda'i gilydd er mwyn osgoi unrhyw risg o amharu neu darfu ar weithrediad beunyddiol yr ysgol, yn enwedig yn ystod cyfnodau arholiadau allweddol.

Cyflwr adeiladau a chyfleusterau'r ysgol

Mae dyletswydd ar y Cyngor i ddarparu'r cyfleusterau gorau posibl ar gyfer y bobl ifanc yn y Fro i gefnogi eu gweithgareddau dysgu. Bob pedair blynedd mae'r Cyngor yn cynnal arolwg o gyflwr yr holl ysgolion ledled Bro Morgannwg. Cynhaliwyd yr arolwg diweddaraf o'r ysgol yn hydref 2014. Nid oedd angen cynnal arolwg o'r adeilad cynradd gan ei fod yn newydd ym mis Medi 2014.

Mae arolwg o gyflwr ysgol yn cynnwys asesiad gweledol o'r holl rannau o'r adeiladau sydd yn y golwg er mwyn canfod unrhyw ddiffygion sylweddol ac eitemau dadfeiliedig.

Ysgol	Math o ysgol	Cyflwr adeilad yr ysgol	Cost atgyweiriadau a ganfuwyd
Adran gynradd Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg	Ysgol Gymunedol 3 - 19 Ysgol Gymunedol	Da (y sgôr uchaf posibl)	£0
Adran uwchradd Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg		Boddhaol	£1.092M

Tabl 11 – Canlyniadau'r Arolwg o Gyflwr yr Ysgol 2014

Mae'r ysgol wedi cael buddsoddiad sylweddol gan y Cyngor yn ddiweddar i atgyweirio rhan fawr o'r to ffelt gwastad a oedd yn gorchuddio ceginau, cyfleusterau bwyta a bloc technoleg yr ysgol.

Er mwyn gwella'r ysgol fel ei bod mewn cyflwr boddhaol, byddai'r gost yn £1.092 miliwn neu 5.7% o'r cyfanswm buddsoddiad arfaethedig o £19 miliwn.

Bydd y cynnig hwn nid yn unig yn mynd i'r afael â chyflwr adeiladau presennol ond bydd hefyd yn adeiladu cyfleusterau newydd i gefnogi dysgu ac addysgu o ansawdd da. Mae disgwyl i hyn gynnwys:

Bloc dysgu newydd :
Byddai bloc addysgu newydd yn cefnogi amgylchedd dysgu mwy hyblyg i hwyluso dulliau newydd o ddysgu ac mae'r cynnydd a ragwelir yn nifer y disgyblion .

Mynedfa/cyntedd mynediad newydd ym mlaen yr ysgol
Byddai pwynt newydd , canolog mynediad i ymwelwyr , staff a disgyblion yn helpu i sicrhau gweledd a gwella hygyrchedd

Maes chwaraeon 3G:
Byddai hyn yn cyflwr y cae chwarae artiffisial celf yn cael ei ddefnyddio i wella addysg gorfforol ar gyfer disgyblion , lleihau costau cynnal a chadw tiroedd a darparu cyfleusterau ychwanegol ar gyfer y gymuned leol.

Mynediad newydd i'r safle:
Byddai parcio bysiau newydd a mynediad o Ffordd Port ddarparu llwybr mwy diogel ar gyfer traffig yr ysgol a thagfeydd lleihad yn yr ardal yn elwa yn yr ysgol a'r gymuned leol.

darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol:
Byddai gallu ychwanegol o fewn yr ysgol i gefnogi anghenion dysgu ychwanegol yn sicrhau y gall disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn derbyn hwn o fewn eu hysgol leol , lle bo modd , a thrwy gyfrwng y Gymraeg.

Mynediad a chynnal a chadw Anabledd uwchraddio:
Uwchraddio i wella mynediad i bobl anabl a buddsoddi mewn gwaith cynnal a chadw hanfodol ar yr adeiladau presennol ymhellach yn sicrhau bod yr holl gyfleusterau ysgol o safon ysgolion yr 21ain Ganrif.

Darpariaeth neuadd / chwaraeon ychwanego
Bydd cynyddu darpariaeth ar gyfer ardaloedd cymunedol hyn yn hwyluso cynnydd yn y galw yn nifer y disgyblion ac yn caniatáu mwy o hyblygrwydd ar gyfer grwpiau mawr o ddisgyblion .

Mannau parcio newydd ac estynedig ar gyfer ceir
Bydd yr ysgol yn elwa o leoedd parcio ychwanegol ar gyfer pawb sy'n defnyddio'r ac ymweld â'r campws.

Rydym yn hyderus y byddwn yn gallu darparu campws cyfrwng Cymraeg a fydd yn cwrdd os nad yn rhagori ar ddisgwyliadau ar gyfer darpariaeth addysg yn yr 21ain Ganrif.

Sut fyddai hyn yn effeithio ar ysgolion eraill?

Mae'r cynnig yn annhebygol o effeithio ar ysgolion eraill yn yr ardal leol a ledled y Fro. Byddai'r ddarpariaeth gynradd yn parhau i wasanaethu ei dalgylch. Ar hyn o bryd mae 36% o'r plant cynradd sy'n mynychu'r ysgol yn byw o fewn ffiniau'r dalgylch. Bydd nifer y lleoedd cynradd yn dal i fod yr un fath ac nid yw'r cynnig hwn yn effeithio arnynt. Gan mai'r ysgol yw'r unig ysgol uwchradd Gymraeg sy'n gwasanaethu ardal Bro Morgannwg, ni fyddai'r cynnig yn effeithio ar unrhyw ysgolion uwchradd eraill yn yr awdurdod.

Sut fyddai'r cynnig yn effeithio ar ddarpariaeth ADY?

Ein nod yw datblygu gallu ysgolion yn unigol ac ar y cyd i roi darpariaeth o ansawdd uchel i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Trwy arfogi ysgolion prif ffrwd i ddiwallu ystod o anghenion dysgu ychwanegol, gall y mwyafrif o ddisgyblion gael eu haddysgu yn eu hysgol leol gan wneud addysg ym Mro Morgannwg yn gynhwysol.

Lle nad yw hyn yn bosibl oherwydd cymhlethdod neu faint yr angen dysgu ychwanegol, gwneir darpariaeth trwy ganolfannau adnoddau arbenigol neu yn yr achosion mwyaf cymhleth yr ysgol arbennig, Ysgol Y Deri.

Caiff nifer a natur y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n mynychu Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ar hyn o bryd eu dangos isod. Mae hyn yn dangos bod lefel uchel o ddysgwyr a chanddynt ystod o anghenion dysgu ychwanegol.

Math o ADY	GY	GY+	Disgyblion â Datganiad	
Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd	2	3	0	
Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig	4	2	2	
Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol	8	4	0	
Dyscalcwlia	1	0	0	
Dyslecsia	73	16	1	
Dyspracsia	0	2	0	
Anawsterau Dysgu Cyffredinol	15	3	0	
Nam ar y Clyw	3	6	0	
Anawsterau Dysgu Cymedrol	1	0	0	
Nam Amlsynnwyr	0	0	0	
Anhawster Corfforol a Meddygol	2	4	0	
Anhawster Dysgu Dwys a Lluosog	0	0	0	
Anhawster Dysgu Difrifol	0	0	0	
Anawsterau Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu	3	6	0	
Nam ar y Golwg	1	3	0	
CYFANSWM:	**113**	**49**	**3**	**165**

Tabl 12 – Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg

Fel arwydd o'r galw am ddarpariaeth yn y dyfodol caiff nifer a natur y disgyblion ag ADY yn yr ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgol eu dangos isod. Mae'r data hwn hefyd yn dynodi lefel uchel o ddysgwyr ag ADY a fydd yn bwydo i mewn i Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn y dyfodol.

Math o ADY	GY	GY+	Disgyblion â Datganiad	
Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd	1	1	0	
Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig	1	5	0	
Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol	20	9	0	
Dyscalcwlia	1	0	0	
Dyslecsia	41	25	0	
Dyspracsia	3	0	0	
Anawsterau Dysgu Cyffredinol	63	6	0	
Nam ar y Clyw	2	2	0	
Anawsterau Dysgu Cymedrol	10	2	0	
Nam Amlsynnwyr	0	0	0	
Anhawster Corfforol a Meddygol	5	5	1	
Anhawster Dysgu Dwys a Lluosog	0	0	0	
Anhawster Dysgu Difrifol	0	0	0	
Anawsterau Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu	13	8	0	
Nam ar y Golwg	0	0	0	
CYFANSWM:	**160**	**63**	**1**	**224**

Tabl 103 Cymorth posibl yn y dyfodol ar gyfer ADY

Er mwyn diwallu anghenion disgyblion ag ADY yn effeithiol yn y dyfodol, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddatblygu canolfannau adnoddau arbenigol cynradd ac uwchradd fel rhan o'r ysgol. Bydd hyn yn golygu bod angen y canlynol:

- darparu ystafell sail, nifer o ardaloedd "ymneilltuo" a man pwrpasol yn yr awyr agored i ddisgyblion ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig ac ystod o ADY

- staffio arbenigol o fewn y ganolfan adnoddau i ddarparu cwricwlwm addasedig a chefnogi disgyblion mewn dosbarthiadau prif ffrwd fel y bo'n briodol.

Bydd y canolfannau adnoddau arbenigol yn dod yn "ganolfannau rhagoriaeth" ar gyfer ADY. Yn ogystal â sicrhau darpariaeth a chefnogaeth briodol ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY trwy gyfrwng y Gymraeg byddant hefyd yn darparu gwasanaeth allgymorth a hyfforddiant ar gyfer ysgolion Cymraeg eraill ym Mro Morgannwg.

Bydd hyn yn meithrin gallu'r holl ysgolion Cymraeg i ddiwallu anghenion disgyblion ag ADY ac yn cefnogi cynhwysiant effeithiol ymhellach.

Beth yw manteision y cynnig hwn?

Ystyrir bod y cynnig yn dwyn y manteision addysgol canlynol i ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg o'i gymharu â manteision yr opsiynau eraill a gafodd eu hystyried (gweler tudalen 22):

- byddai'n sicrhau bod cydbwysedd cynaliadwy rhwng y cyflenwad o leoedd uwchradd a'r galw amdanynt i roi cymorth i ehangu addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg
- byddai'n darparu mwy o gyfleusterau a'r rheiny'n gyfleusterau gwell ar gyfer Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg mewn adeiladau ysgol newydd ac wedi'u hailfodelu i gefnogi datblygiad addysg 3-19 yn fwy effeithiol a darparu amgylchedd dysgu gwell
- bydd ysgol ehangedig yn darparu ystod eang o gyfleoedd dysgu ar gyfer disgyblion
- byddai'n darparu amgylchedd dysgu gwell sy'n cynorthwyo ac yn herio plant unigol i lwyddo gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol
- byddai'n cynyddu lefel y mynediad cymunedol at gyfleusterau'r ysgol
- bydd ysgol ehangedig yn darparu mwy o gyfleoedd cyflogaeth a datblygu ar gyfer staff
- byddai'n darparu datrysiad cost-effeithiol sy'n costio £19.221 miliwn ac sy'n gwella'r modd y darperir addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Beth yw anfanteision posibl y cynnig hwn?

Mae anfanteision posibl y cynnig fel a ganlyn:

- cynnydd posibl mewn tagfeydd traffig o amgylch safleoedd yr ysgol ar adeg gollwng/casglu plant. Fodd bynnag, byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu'r ysgol i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau i'r eithaf unrhyw achos posibl o darfu. Bydd mannau parcio newydd a mynediad newydd o Port Road yn cael eu hystyried yn ogystal â chyfleusterau parcio newydd ac estynedig
- gallai newidiadau i unrhyw adeiladau presennol ac unrhyw adeiladau newydd darfu rhywfaint ond mae profiad yn dangos y gellir cyfyngu i'r eithaf ar hyn ac nad yw addysg plant yn dioddef.
- ehangu ar safle ysgol sydd eisoes yn gyfyngedig.

Risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig

Er mwyn cwblhau'r cyfleusterau estynedig erbyn y dyddiad targed, sef Medi 2020, mae angen i'r gwaith adeiladu ar y campws ddechrau yn 2019. Byddai hyn yn golygu y byddai angen i'r Cyngor ddechrau buddsoddi yn y prosiect cyn cael unrhyw gyllid ffurfiol gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r cynigion hyn wedi cael eu datblygu yn seiliedig ar dybiaeth y bydd cyllid i fuddsoddi yn adeiladau'r ysgol yn cael ei ddarparu gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru. Os daw i'r amlwg maes o law nad yw cyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru, efallai na fydd yn bosibl gwireddu holl uchelgeisiau'r prosiect. Dan yr amgylchiadau hyn, byddai angen adolygu'r opsiynau buddsoddi ar gyfer cyflawni'r cynllun a blaenoriaethu'r gwaith a fydd yn cael ei wneud i gynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol.

Dewisiadau eraill a gafodd eu hystyried

Y rheswm yr ydym yn ymgynghori â chi yw'r angen cydnabyddedig i gynyddu nifer y lleoedd uwchradd cyfrwng Cymraeg. Mae dau opsiwn eu hystyried a'u disgowntio gan gynnwys:

1. **Symud Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg i gampws Ysgol Gyfun Bryn Hafren.**

   Hwn oedd yr opsiwn a ffafriwyd yn ymarfer ymgynghori 2015 ac ni chafodd ei gefnogi gan ymgyngoreion. Er y byddai'r campws ym Mryn Hafren yn darparu digon o le i allu cefnogi'r amcan i ehangu addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg, nid oedd yr amhariad posibl i ddisgyblion cyfrwng Saesneg yn cael ei gefnogi. Roedd rhai rhieni i ddisgyblion cynradd wedi codi pryderon hefyd ynghylch llwybrau hirach i'r ysgol. Felly mae'r Cyngor wedi diystyru'r opsiwn hwn.

2. **Y Sefyllfa Fel ag y Mae**

   Dewis arall fyddai cadw Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg fel ag y mae gyda'r Cyngor yn gwneud y gwaith gofynnol a amlygwyd yn yr arolwg o gyflwr yr adeiladau ochr yn ochr ag ysgolion eraill ledled Bro Morgannwg. Fodd bynnag, ni fyddai'r Cyngor yn argymell yr opsiwn hwn gan na fyddai'n cyflawni ein dyletswydd statudol i ddiwallu'r anghenion sy'n deillio o'r galw cynyddol am leoedd uwchradd cyfrwng Cymraeg a ragwelir.

Caiff manteision ac anfanteision yr opsiwn a ffafrir – ymestyn cyfleusterau ar y campws presennol – eu nodi ar dudalen 23. Mae'r opsiwn hwn yn amharu gyn lleied â phosibl ar yr holl ysgolion uwchradd ledled y Barri a dyma'r datrysiad mwyaf cost-effeithiol i allu darparu digon o leoedd uwchradd cyfrwng Cymraeg ar gyfer rhieni a disgyblion.

Trefniadau derbyn a dalgylchoedd

Bydd trefniadau derbyn ar gyfer yr ysgol yn parhau'n ddigyfnewid o ganlyniad i'r cynigion hyn.

Bydd dewis rhieni ar gyfer addysg Gymraeg yn cael ei reoli trwy broses y Cyngor ar gyfer derbyn i ysgolion fel y mae ar hyn o bryd a bydd dalgylchoedd yr ysgol yn parhau'n ddigyfnewid hefyd.

Cyllid – Buddsoddiad cyfalaf

Bydd y cynnig hwn yn golygu y bydd buddsoddiad cyfalaf sylweddol yn cael ei wneud i ymestyn yr ysgol a datblygu cyfleusterau o'r radd flaenaf er mwyn gwella deilliannau addysg. Amcangyfrifir mai £19 miliwn fyddai cost y prosiect.

Fel a nodir ar dudalen 19, bydd y prosiect yn cynnwys adnewyddu cyfleusterau presennol, bloc addysgu newydd, mynedfeydd newydd a mannau parcio newydd.

Bydd y Cyngor yn cynnig am ran o'r cyllid (y disgwylir y bydd oddeutu 50% neu £9.6m), trwy Fand B o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru. Yn ôl yr amserlen mae'r cyllid hwn i fod ar gael yn 2019. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i dalu ei gyfran o'r buddsoddiad.

Mae'r Cyngor yn paratoi ar gyfer camau cyntaf y rhaglen gyllido hon ac mae'n disgwyl y bydd Llywodraeth Cymru yn dechrau gofyn am geisiadau i'r rhaglen ariannu yn 2016/17.

Pe na bai cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gael, byddai'n rhaid i'r Cyngor adolygu'r opsiynau buddsoddi ar gyfer cyflawni'r cynllun a blaenoriaethu'r gwaith a fyddai'n cael ei gyflawni i gynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol.

Cyllid – costau rhedeg

Byddai costau refeniw ychwanegol y niferoedd disgyblion uwch a ddisgwylir yn cael eu hysgwyddo trwy'r fformwla cyllid ysgolion sy'n dyrannu'r rhan fwyaf o gyllid i ysgolion ar sail niferoedd disgyblion. Byddai cynnydd cyffredinol yn nifer y disgyblion ledled y Fro yn arwain at gynnydd yn y Grant Cynnal Refeniw gan Lywodraeth Cymru a fyddai'n cael ei ddyrannu i ysgolion.

Byddai'r adeiladau newydd yn cael eu dylunio gan ddefnyddio dulliau arloesol a deunyddiau sy'n arbed ynni. Dylai hyn leihau costau rhedeg yr ysgol.

Mae ysgolion mwy yn gallu sicrhau gwerth gwell am arian ar y cyfan trwy ddarbodion maint.

Materion Adnoddau Dynol

Rhagwelir y bydd effaith gadarnhaol ar staffio gan y bydd ehangu'r ysgol yn darparu mwy o gyfleoedd cyflogaeth a datblygu ar gyfer staff. Bydd y Cyngor yn parhau i gefnogi'r llywodraethwyr, y Pennaeth a'r staff yn yr ysgol lle y bo angen.

Bydd yr ysgol yn dal i fod â mynediad at bolisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol Bro Morgannwg a bydd y gwasanaeth Adnoddau Dynol yn cydweithio'n agos gyda llywodraethwyr i sicrhau bod cyfathrebu rheolaidd ac eglur yn digwydd.

Byddai unrhyw effaith ar staffio'n amodol ar ymgynghori'n llawn â staff a'r undebau llafur perthnasol.

Materion cludiant

Bydd goblygiadau ar gyfer traffig a chludiant yn cael eu hystyried fel rhan o'r Asesiad Cludiant a fyddai'n ofynnol er mwyn cael caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith adeiladu pe bai'r cynigion hyn yn cael eu gweithredu.

Trefniadau teithio gan ddysgwyr

Dan y cynigion hyn nid oes unrhyw gynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar gludo plant i ac o ysgolion.

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu cludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n byw yn bellach na phellter cerdded o'r ysgol briodol agosaf[1]. Nid yw'r Cyngor yn darparu cludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer plant o oedran meithrin ac eithrio'r plant hynny sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA).

"Y diffiniad o hyn yw mwy na 2 filltir i'r ysgol addas agosaf ar gyfer Disgyblion Cynradd a mwy na 3 milltir ar gyfer Disgyblion Uwchradd. Caiff pellteroedd eu mesur yn ôl y llwybr cerdded agosaf sydd ar gael."[2]

Ni fydd y llwybrau cerdded diogel i ysgolion a ddefnyddir ar gyfer asesu cludiant am ddim i'r ysgol yn newid o ganlyniad i'r cynnig hwn. Nid oes unrhyw effaith o ganlyniad i'r cynnig hwn ar y llwybrau cerdded diogel sydd ar gael i ddisgyblion gael mynediad at yr ysgol.

Nid yw cludant i'r ysgol yn cael ei ddarparu ar gyfer plant cynradd sy'n mynychu'r ysgol gan fod yr ysgol o fewn radiws o 2 filltir i ffin ei dalgylch ym mhob cyfeiriad.

Ar hyn o bryd mae cludiant am ddim i'r ysgol yn cael ei ddarparu i ddisgyblion sy'n mynychu'r adran uwchradd os ydynt yn byw dros 3 milltir o'r ysgol, a bydd hynny'n parhau. Ni fydd newidiadau i'r cymhwyster i dderbyn cludiant am ddim i'r ysgol o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Gellir gweld polisi'r Cyngor ar gludiant i'r ysgol ar wefan y Cyngor: http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/working/education_and_skills/schools/school_transport/school_transport.aspx

Effaith y cynnig ar y Gymraeg

Mae galw ymhlith rhieni am addysg Gymraeg wedi bod yn tyfu ledled Bro Morgannwg ers 2007. Mae'r cynnydd hwn yn y galw wedi bod ar ei gryfaf yn y Barri. Nid yw nifer y lleoedd meithrin a chynradd ar y cyfan yn newid o ganlyniad i'r cynnig ond mae angen cynnydd yn nifer y lleoedd uwchradd o 2020 i ateb y galw a ragwelir. Byddai nifer y lleoedd uwchradd cyfrwng Cymraeg yn cynyddu o 1151 i 1450 a nifer y lleoedd ar y cyfan o 1361 i 1660.

Bydd y cynnig yn rheoli'r galw yn y dyfodol am leoedd uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg ac yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg yn y Barri.

Bydd y cynnig yn darparu mwy o hyblygrwydd yng nghwricwlwm yr ysgol ac ar gyfer defnydd gan y gymuned. Bydd y cynnig yn darparu cyfle ar gyfer cyswllt estynedig â Menter Bro Morgannwg i ehangu'r defnydd o'r Gymraeg ym Mro Morgannwg trwy greu cyfleoedd i ddinasyddion y Fro ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol a'r gwaith.

[1] Polisi ar gyfer Darparu Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol (Diwygiwyd ym mis Chwefror 2010)

[2] Y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Bydd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gynnal fel rhan o'r ymgynghoriad hwn a bydd yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad ymgynghori.

Ystyried yr effaith ar y gymuned

Bydd ehangu Ysgol Bro Morgannwg yn gwella addysg yn yr ardal heb effeithio'n anffafriol ar y gymuned. Lle bynnag y bo'n bosibl byddwn yn ceisio osgoi unrhyw effaith negyddol o ganlyniad i'r gwaith adeiladu sy'n gysylltiedig â'r cynnig. Mae'r ysgol yn cynnig gweithgareddau i ddisgyblion y tu allan i oriau ysgol a bydd y gweithgareddau hyn yn parhau.

Ni fydd y cynigion hyn yn effeithio'n anffafriol ar y cyfleusterau presennol sydd ar gael i ddisgyblion, y gymuned a rhieni.

Gellir gweld yr asesiad llawn o'r effaith ar y gymuned trwy ddilyn y ddolen ganlynol: www.valeofglamorgan.gov.uk/Welshmediumexpansion

Dyddiadau allweddol

Bydd yr adborth o'r ymgynghoriad hwn yn cael ei goladu a'i grynhoi a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor. Bydd yr adroddiad ymgynghori ar gael i bawb ei weld ar wefan y Cyngor. Gellir cael copïau ar gais hefyd trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt yn y ddogfen hon.

Mae nifer o gamau eraill y mae'n rhaid i'r Cyngor fynd drwyddynt cyn bod penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan y Cyngor. Caiff y camau hyn eu nodi isod

Y Broses Statudol	Graddfa Amser
Cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori	20 Mehefin 2016
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno barn am y cynigion	01 Awst 2016
Adroddiad ymgynghori'n cael ei ystyried gan y Cabinet a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor	Medi 2016
Cyhoeddi'r hysbysiad statudol pan wahoddir gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol	Hydref 2016
Penderfyniad gan Gabinet y Cyngor	Rhagfyr 2016
Cyhoeddi'r adroddiad gwrthwynebu o fewn saith niwrnod i'r penderfyniad ar wefan y Cyngor a hysbysu ynghylch penderfyniad y Cabinet	Rhagfyr 2016
Derbyn disgyblion ychwanegol ym mlwyddyn 7	Medi 2018
Gwaith yn dechrau yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg	2019
Gwaith wedi'i gwblhau yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg	2021

Tabl 13 – Amserlen Ymgynghori

Gallai'r amserlen arfaethedig newid.

Y cyfnod ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynigion hyn yn dechrau ar 20 Mehefin 2016 ac yn dod i ben ar 01 Awst 2016. Gweler tudalen 31 am fwy o fanylion ynglŷn â sut i ymateb a gwneud eich barn yn hysbys.

O fewn 13 wythnos i 01 Awst 2016, bydd adroddiad ymgynghori'n cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Bro Morgannwg. Bydd copïau caled o'r adroddiad ar gael ar gais hefyd. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd gan ymgyngoreion yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn darparu ymateb y Cyngor i'r materion hynny. Bydd yr adroddiad yn cynnwys barn Estyn am y cynigion hefyd.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu a yw'n mynd i fwrw ymlaen â'r cynigion ai peidio.

Os yw'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynigion mae'n rhaid i Gyngor Bro Morgannwg gyhoeddi hysbysiad statudol.

Hysbysiad Statudol

Byddai'r hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Bro Morgannwg ac yn cael ei osod ym mhrif fynedfa'r ysgol neu'n agos ato. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg eu dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid, y corff llywodraethu ac aelodau o staff (gall yr ysgol ddosbarthu'r hysbysiad trwy'r e-bost hefyd). Bydd yr hysbysiad yn nodi manylion y cynigion ac yn gwahodd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu i wneud hynny'n ysgrifenedig o fewn y cyfnod a nodir.

Penderfynu ynghylch y cynigion

Y Cabinet fydd yn penderfynu ynghylch y cynnig. Gall y Cabinet benderfynu cymeradwyo'r cynigion, eu gwrthod neu eu cymeradwyo ag addasiadau. Wrth wneud hynny, bydd y Cabinet yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau statudol y mae wedi'u cael.

Hysbysu ynghylch y Penderfyniad

Yn dilyn penderfynu ynghylch y cynnig bydd yr holl bartïon sydd â buddiant yn cael eu hysbysu ynghylch y penderfyniad a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Bro Morgannwg.

Cwestiynau Cyffredin

A fydd unrhyw newid i'r trefniadau derbyn ar gyfer yr ysgol?

Cyngor Bro Morgannwg yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol. Byddai'r trefniadau derbyn yn parhau'n ddigyfnewid o ganlyniad i'r cynnig.

A fydd unrhyw newidiadau i ddalgylchoedd yr ysgolion

Ni fydd y dalgylchoedd yn newid ar gyfer grwpiau oedran cynradd nac uwchradd.

A fydd yr ysgol yn parhau i weithredu ar y safle presennol?

Bydd yr ysgol yn parhau i weithredu ar y safle presennol. Yn 2018, bydd y nifer derbyn ar gyfer lleoedd uwchradd yn cynyddu o 169 i 240, ac erbyn 2020 bydd y cynnydd hwn yn y niferoedd yn golygu bod angen mwy o adeiladau i ateb y galw yn y dyfodol.

Pryd fydd y gwaith yn cael ei wneud?

Os caiff y cynnig ei gytuno gan y Cyngor, y gobaith yw y byddwn yn gallu dechrau ar y gwaith ar ddechrau 2019. Ar y cam hwn ni fyddwn wedi cael cefnogaeth Llywodraeth Cymru eto gan na fydd y rhaglen ariannu'n dechrau tan 2019. Fodd bynnag, rydym yn ymrwymedig i ehangu'r ddarpariaeth uwchradd ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Os na fydd y cyllid yn cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, bydd y Cyngor yn adolygu ei raglen gan roi blaenoriaeth i ehangu nifer y lleoedd yn yr ysgol i ateb y galw a ragwelir.

A fydd gwaith adeiladu'n cael ei wneud yn ystod y tymor?

Bydd y Cyngor yn sicrhau, lle bynnag y bo'n bosibl, bod unrhyw waith adnewyddu neu adeiladu'n cael ei amserlennu fel ei fod yn cael ei wneud y tu allan i'r diwrnod ysgol ac yn ystod y gwyliau. Ar adegau, efallai y bydd angen gwneud peth gwaith yn ystod oriau ysgol ond bwriedir cyfyngu gymaint â phosibl ar hyn er mwyn gwneud yn siŵr bod y gwaith yn amharu gyn lleied â phosibl ar weithgareddau dysgu'r disgyblion. Ni fydd unrhyw waith adeiladu'n cael ei wneud yn ystod cyfnodau arholiadau allweddol.

A fydd cludiant yn dal i gael ei ddarparu ar gyfer disgyblion cymwys?

Bydd disgyblion sy'n cael cludiant am ddim i'r ysgol yn dal i'w gael. Bydd cymhwystra'n gyson â'r meini prawf a nodir yn y Polisi Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol y gellir ei weld trwy ddilyn y ddolen ganlynol:

http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/working/education_and_skills/schools/school_transport/school_transport.aspx

FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD
(Cynyddu Lleoedd Uwchradd Cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg)

Mae eich barn chi o bwys, felly dywedwch wrthym beth ydych yn ei feddwl am y cynigion trwy:

- gwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein yn: www.valeofglamorgan.gov.uk/Welshmediumexpansion ; neu

- ateb y cwestiynau ymgynghori ac ychwanegu eich safbwyntiau ar y ffurflen hon

Dychwelwch y ffurflen i'r cyfeiriad rhadbost ar waelod y ffurflen.

Sylwer bod yn rhaid i'r holl sylwadau gynnwys enw llawn a chyfeiriad post llawn y sawl sy'n gwneud y sylwadau. Ni ellir derbyn unrhyw sylwadau eraill.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 01 Awst 2016.

Yn anffodus ni fydd unrhyw ymatebion sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwn yn gallu cael eu hystyried gan y Cyngor.

Ni fydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynigion, er y byddant yn cael eu hystyried gan y Cabinet wrth iddo wneud ei benderfyniad.

Dim ond ar ôl cyhoeddi **hysbysiad statudol** y byddai gwrthwynebiadau'n gallu cael eu cofrestru.

Gellir gofyn am unrhyw ymatebion sy'n dod i law dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac efallai y bydd yn rhaid eu cyhoeddi. Fodd bynnag, byddai unrhyw wybodaeth sy'n datgelu pwy yw unigolyn megis enw, cyfeiriad e-bost a chyfeiriad post yn cael ei dileu.

Eich Enw:……
Cyfeiriad:……..
……
Cod Post:……
Cyfeiriad E-bost:……
Dyddiad:……..

Dywedwch wrthym ym mha gymhwyster yr ydych yn ymateb:

		Ysgol Bresennol
1. Rhiant	☐	……
2. Disgybl	☐	……
3. Llywodraethwr	☐	……
4. Aelod o Staff	☐	……
5. Trigolyn Lleol	☐	
6. Arall (rhowch fanylion)	☐	……..…

FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD
(Cynyddu Lleoedd Uwchradd Cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg)

Cwestiynau

1. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer addysg uwchradd Gymraeg ym Mro Morgannwg er mwyn ateb y galw cynyddol am leoedd?

   Ydw ☐ Nac ydw ☐

   Os ydych neu os nad ydych yn cefnogi'r cynnig yna eglurwch pam os gwelwch yn dda.

2. Os hoffech awgrymu unrhyw newidiadau i'r cynnig neu ddewisiadau yn ei le, nodwch y rhain isod os gwelwch yn dda.

Unrhyw sylwadau eraill?

Diolch am eich sylwadau

Ticiwch y blwch isod os ydych yn dymuno cael eich hysbysu ynghylch cyhoeddi'r adroddiad ymgynghori ☐

Rhadbost RTGU-JGBH-YYJZ
Ymgynghoriad
Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid
Cyngor Bro Morgannwg
Y Swyddfeydd Dinesig
Heol Holton
Y Barri
CF63 4RU

Dychwelwch y ffurflen hon at Gyngor Bro Morgannwg fan bellaf erbyn dydd Llun 01 Awst 2016.

Tudalennau Nodiadau

Nodiadau ar y Ddogfen Ymgynghori

Ffurflen Monitro Cydraddoldeb Bro Morgannwg

Rhywedd a Hunaniaeth o ran Rhywedd	
Beth yw eich rhywedd?	☐ Benywaidd ☐ Gwrywaidd
Pan gawsoch eich geni, sut oeddech chi'n cael eich disgrifio?	☐ Benywaidd ☐ Gwrywaidd ☐ Rhyngrywiol ☐ Gwell gen i beidio â dweud
Anabledd	
A oes cyflwr corfforol neu feddyliol, salwch neu anabledd sy'n cyfyngu ar eich gweithgareddau beunyddiol ac sydd wedi para, neu y mae disgwyl iddo bara, am 12 mis neu fwy?	☐ Oes – yn cyfyngu llawer ☐ Oes – yn cyfyngu ychydig ☐ Nac oes ☐ Gwell gen i beidio â dweud
Oedran	
Beth yw eich dyddiad geni?:	

Hunaniaeth Genedlaethol				
Hunaniaeth Genedlaethol – sut fyddech chi'n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?				
☐ Cymraeg	☐ Saesneg	☐ Albanaidd	☐ Gwyddelig Gogledd Iwerddon	☐ Prydeinig
☐ Arall (rhowch fanylion)		☐ Gwell gen i beidio â dweud		

Grŵp Ethnig			
Ethnigrwydd – sut fyddech chi'n disgrifio eich grŵp ethnig?			
Gwyn			
☐ Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gwyddelig Gogledd Iwerddon/Prydeinig		☐ Gwyddelig	
☐ Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig	☐ Unrhyw gefndir gwyn arall (rhowch fanylion):		
Grwpiau ethnig cymysg/lluosog			
☐ Gwyn a Du Caribïaidd	☐ Gwyn a Du Affricanaidd	☐ Gwyn ac Asiaidd	
☐ Unrhyw gefndir ethnig cymysg/lluosog arall (rhowch fanylion):			
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig			
☐ Indiaidd	☐ Pacistanaidd	☐ Bangladeshaidd	☐ Tsieineaidd
☐ Unrhyw gefndir Asiaidd arall (rhowch fanylion):			
Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig			
☐ Affricanaidd	☐ Caribïaidd		
☐ Unrhyw gefndir Du/Affricanaidd/Caribïaidd arall (rhowch fanylion):			
Grŵp ethnig arall			
☐ Arabaidd			
☐ Unrhyw grŵp ethnig arall (rhowch fanylion):			
☐ Gwell gen i beidio â dweud			

Y Gymraeg				
Disgrifiwch eich gallu yn y Gymraeg trwy roi tic yn y blwch/blychau perthnasol isod.				
	Deall	**Siarad**	**Darllen**	**Ysgrifennu**
Dim	☐	☐	☐	☐
Sylfaenol	☐	☐	☐	☐
Cymwys	☐	☐	☐	☐
Da	☐	☐	☐	☐
Rhugl	☐	☐	☐	☐

Hunaniaeth Rywiol		
Pa un o'r opsiynau canlynol sy'n rhoi'r disgrifiad gorau o'r modd yr ydych yn meddwl amdanoch chi eich hun?		
☐ Heterorywiol / strêt	☐ Hoyw neu lesbiaidd	☐ Deurywiol
☐ Arall	☐ Gwell gen i beidio â dweud	

Crefydd			
Beth yw eich crefydd?			
☐ Dim crefydd	☐ Cristnogaeth (pob enwad)		☐ Bwdhaeth
☐ Hindŵaeth	☐ Iddewiaeth	☐ Islam	☐ Sikhiaeth
☐ Unrhyw grefydd arall (rhowch fanylion):		☐ Gwell gen i beidio â dweud	

Beichiogrwydd a Mamolaeth	
Ydych chi'n feichiog ar hyn o bryd neu ydych chi wedi bod yn feichiog o fewn y flwyddyn ddiwethaf?	☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Gwell gen i beidio â dweud
Ydych chi wedi cymryd absenoldeb mamolaeth yn y flwyddyn ddiwethaf?	☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Gwell gen i beidio â dweud

Priodas a Phartneriaeth Sifil	
Beth yw eich statws cyfreithiol o ran priodol neu bartneriaeth sifil o'r un rhyw?	☐ Sengl, hynny yw heb briodi erioed a heb gofrestru erioed mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw ☐ Yn briod ac yn byw gyda gŵr/gwraig ☐ Wedi gwahanu ond yn dal yn briod yn gyfreithiol ☐ Wedi ysgaru ☐ Yn weddw ☐ Mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw sydd wedi'i chofrestru ac yn byw gyda'ch partner ☐ Wedi gwahanu, ond yn dal mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw yn gyfreithiol ☐ Wedi bod mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw sydd bellach wedi'i diddymu'n gyfreithiol ☐ Partner sy'n dal yn fyw o bartneriaeth sifil o'r un rhyw ☐ Gwell gen i beidio â dweud